OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 3046 (Cy.321) (C.116)

IECHYD MEDDWL, CYMRU A LLOEGR

Gorchymyn Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) 2011

Gwnaed - - - - 18 Rhagfyr 2011

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 52(2) a 55(3) o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010(**1**).

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) 2011.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010;

(b) mae i "claf cymwys" yr un ystyr a roddir i "*qualifying patient*" yn adran 130C o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**2**);

(c) mae i "cleifion anffurfiol cymwys Cymru" yr un ystyr a roddir i "*Welsh qualifying informal patients*" yn adran 130J o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**3**).

Darpariaethau'r Mesur sy'n dod i rym ar 3 Ionawr 2012

2. Mae darpariaethau canlynol y Mesur yn dod i rym ar 3 Ionawr 2012—

(a) Adran 31 (eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol: Cymru) ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â chleifion anffurfiol cymwys Cymru;

(b) Adran 32 (darpariaeth bellach ynghylch eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol ar gyfer cleifion cymwys Cymru dan orfodaeth);

(c) Adran 34 (eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol: pwerau a dyletswyddau atodol) ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â chleifion anffurfiol cymwys Cymru;

(ch) Adran 35 (cleifion cymwys Cymru dan orfodaeth);

(d) Adran 37 (dyletswydd i roi gwybodaeth am eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol i gleifion cymwys Cymru dan orfodaeth);

(**1**) 2010 mccc 7.
(**2**) 1983 p.20. Mewnosodwyd adran 130C gan adran 30 o Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 (p.12).
(**3**) Mewnosodwyd adran 130J gan adran 36 o'r Mesur.

(dd) Adran 39 (cymhwyso cod ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 1983 i eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol Cymru) ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â chleifion anffurfiol cymwys Cymru;

(e) Adran 40 (gweithdrefnau ar gyfer gwneud rheoliadau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983) ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â chleifion anffurfiol cymwys Cymru;

(f) Adran 44 (codau ymarfer);

(ff) Adran 53(1) (diwygiadau canlyniadol etc) ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â chleifion anffurfiol cymwys Cymru;

(g) Adran 54 (diddymiadau) ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â chleifion anffurfiol cymwys Cymru;

(ng) Atodlen 1 (diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983) ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â chleifion anffurfiol cymwys Cymru; ac

(h) Atodlen 2 (diddymiadau) ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â chleifion anffurfiol cymwys Cymru.

Darpariaethau'r Mesur sy'n dod i rym ar 2 Ebrill 2012

3. Mae darpariaethau canlynol y Mesur yn dod i rym ar 2 Ebrill 2012—

(a) Adran 31 (eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol: Cymru) i'r graddau nad yw eisoes wedi cychwyn;

(b) Adran 33 (darpariaeth bellach ynghylch eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol ar gyfer cleifion anffurfiol cymwys Cymru);

(c) Adran 34 (eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol: pwerau a dyletswyddau atodol) i'r graddau nad yw eisoes wedi cychwyn;

(ch) Adran 36 (cleifion anffurfiol cymwys Cymru);

(d) Adran 38 (dyletswydd i roi gwybodaeth am eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol i gleifion anffurfiol cymwys Cymru);

(dd) Adran 39 (cymhwyso cod ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 1983 i eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol Cymru) i'r graddau nad yw eisoes wedi cychwyn;

(e) Adran 40 (gweithdrefnau ar gyfer gwneud rheoliadau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983) i'r graddau nad yw eisoes wedi cychwyn;

(f) Adran 53(1) (diwygiadau canlyniadol etc) i'r graddau nad yw eisoes wedi cychwyn;

(ff) Adran 54 (diddymiadau) i'r graddau nad yw eisoes wedi cychwyn;

(g) Atodlen 1 (diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983) i'r graddau nad yw eisoes wedi cychwyn; ac

(ng) Atodlen 2 (diddymiadau) i'r graddau nad yw eisoes wedi cychwyn.

Darpariaethau'r Mesur sy'n dod i rym ar 8 Mai 2012

4. Mae darpariaethau canlynol y Mesur yn dod i rym ar 8 Mai 2012—

(a) Adran 1 (ystyr "partneriaid iechyd meddwl lleol");

(b) Adran 2 (cynlluniau ar y cyd ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol);

(c) Adran 4 (methiannau i gytuno ar gynlluniau);

(ch) Adran 5 (ystyr "gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol");

(d) Adran 11 (cynnwys cynlluniau o dan y Rhan hon mewn cynlluniau plant a phobl ifanc);